

**CYNGOR SIR Y FFLINT**  
**COFNODION CYFARFOD GWNEUD PENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET**  
**UNIGOL A GYNHALIWDYD DROS DELEGYNHADLEDD DDYDD MAWRTH 12**  
**MAI 2020 AM 12.45PM**

**CYFRANOGWYR:** Y Cynghorydd Glyn Banks (fel yr Aelod Cabinet sy'n gwneud y penderfyniad) a'r Cynghorydd Ian Roberts. Gyda chyngor gan y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid Strategol.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Arweinydd Tîm (Gwasanaethau Democraidd)

Darparodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fanylion y weithdrefn a'r trefniadau ar gyfer sicrhau ymgynghoriad a thryloywder. Mae angen penderfyniad Aelod Cabinet Unigol gan fod sefyllfa frys wedi codi.

**10. DATGAN CYSYLLTIAD**

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet, dan God Ymddygiad y Cynghorwyr, nad oedd ganddo gysylltiad â'r adroddiad.

**11. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2019/20 - CARIO CYLLID YMLAEN I 2020/21**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cyllid Corfforaethol ac eglurwyd fod Rheolau'r Weithdrefn Gyllid yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cario ceisiadau cyllid ymlaen i wrdd â chost ymrwymadau i'r dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion nifer o geisiadau cario ymlaen a argymhellir, sydd wedi'u cyflwyno gan bortffolios ac wedi bod yn destun proses herio i sicrhau bod y diben yn rhesymol a phriodol. Mae'r tabl yn yr adroddiad yn crynhoi swm y ceisiadau cario ymlaen ac fe geir rhagor o fanylion yn yr atodiad.

Dyweddodd y Cynghorydd Banks, fel Aelod Cabinet Cyllid, ei fod yn fodlon ar y manylion a ddarparwyd iddo yn dilyn cyflwyno cwestiynau i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, gwnaeth y Cynghorydd Carver y sylwadau canlynol:

"Yn fy marn i, fel Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, mae'r ceisiadau cario ymlaen yn rhesymol ac felly nid oes gen i unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 ac Atodiad 1 yr adroddiad."

Roedd y Cynghorydd Mackie wedi cyflwyno'r sylw canlynol i'r Rheolwr Gwasanaethau Democraidd:

"Derbyniwyd incwm o £0.060 miliwn gan Gyngor Tref y Fflint yn 2019/20 tuag at adfywio canol y dref. Bydd hyn yn canolbwyntio mwy ar ymyraethau mewn eiddo ac yn cynnwys recriwtio i swydd newydd yn 20120/21."

Roedd y Cynghorydd Banks, fel Aelod Cabinet Cyllid, yn cefnogi'r argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r ceisiadau cario ymlaen yn Nhabl 1 ac Atodiad 1.

**12. HYD Y CYFARFOD**

Dechreuodd y cyfarfod am 12.45pm a daeth i ben am 13.00pm.

.....  
**Y Cadeirydd**